## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi’r gofynion wrth hybu chwarae. Gofynnir i chi arsylwi ac asesu sut mae chwarae yn cefnogi pob agwedd ar ddatblygiad plant, gan gynnwys twf corfforol, emosiynol, cymdeithasol a gwybyddol. Mae’n rhaid i chi greu amgylcheddau chwarae cynhwysol ac ysgogol, ymateb i arwyddion chwarae’r plant, a sicrhau cydbwysedd rhwng chwarae sy'n cael ei arwain gan blant a chwarae sy'n cael ei arwain gan oedolion. Bydd disgwyl i chi fyfyrio ar eich ymarfer, cydweithio â theuluoedd ac eraill, ac ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus i wella’r cyfleoedd i chwarae ar gyfer pob plentyn.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cynllunio a rhoi chwarae ar waith sy'n cefnogi pob agwedd ar ddatblygiad plant
2. creu amgylchedd diogel ac ysgogol lle mae mannau chwarae, profiadau a rhyngweithiadau yn gynhwysol ac yn cwrdd ag anghenion amrywiol pob plentyn
3. darparu profiadau chwarae sy'n annog plant i archwilio a chysylltu â'r amgylchedd naturiol
4. cynnwys arferion cynaliadwy mewn lleoliadau chwarae
5. hwyluso cydbwysedd rhwng cyfleoedd chwarae sy'n cael eu harwain gan blant a rhai sy'n cael eu harwain gan oedolion
6. rhoi strategaethau ar waith i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol yn ystod gweithgareddau chwarae
7. meithrin diwylliant o chwilfrydedd, creadigrwydd ac ymholi drwy fannau chwarae ac adnoddau sydd wedi'u cynllunio'n feddylgar
8. defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i hwyluso profiadau chwarae plant
9. arsylwi ac ymateb i arwyddion chwarae plant, gan ymestyn y dysgu a'r datblygu drwy ymyriadau addas
10. annog a chefnogi plant i wneud dewisiadau ac arwain chwarae eu hunain
11. cefnogi plant i asesu risgiau iddyn nhw'u hunain ac eraill wrth chwarae
12. dilyn gweithdrefnau ar gyfer asesu risg ac iechyd a diogelwch heb gyfyngu ar y cyfleoedd i chwarae a datblygu
13. myfyrio ar ddewisiadau chwarae plant ac addasu'r amgylchedd i wella eu profiadau
14. cydweithio â theuluoedd i ddeall patrymau chwarae a dewisiadau plant a sut y gallant gefnogi chwarae adref
15. ymgysylltu ag adnoddau cymunedol i gyfoethogi profiadau chwarae plant
16. meithrin perthnasoedd cryf ag eraill i gefnogi chwarae a datblygiad plant
17. casglu adborth am lefelau cyfranogiad a ffactorau amgylcheddol er mwyn asesu effeithiolrwydd y ddarpariaeth chwarae
18. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer y ddarpariaeth chwarae
19. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i hybu chwarae

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. hawl plentyn i chwarae
2. y gwahanol fathau o chwarae
3. sut mae chwarae yn cefnogi pob agwedd ar ddatblygiad plant
4. sut mae chwarae yn cefnogi rheoleiddio emosiynol a llesiant plant
5. sut gall chwarae ddod â llawenydd a boddhad
6. pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng chwarae sy'n cael ei arwain gan blant a chwarae sy'n cael ei arwain gan oedolion
7. sut mae arsylwi ar arwyddion chwarae, a'u dehongli, i ymestyn dysgu a datblygiad plant
8. sut mae annog a chefnogi plant i wneud dewisiadau ac arwain eu chwarae eu hunain
9. pam y dylai plant gael y cyfle i brofi heriau a risgiau
10. sut mae cynnal asesiadau risg sy'n cydbwyso rhagofalon rhesymol ac yn darparu cyfleoedd i chwarae a datblygu
11. sut mae cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau yn llywio chwarae ac yn dylanwadu ar ddyluniad cyfleoedd chwarae cynhwysol
12. strategaethau i gefnogi plant ag anghenion cymorth ychwanegol a niwroamrywiaeth i chwarae
13. sut mae dylunio a chreu mannau chwarae diogel, cynhwysol ac ysgogol a phrofiadau sy'n cwrdd ag anghenion amrywiol plant
14. pwysigrwydd chwarëusrwydd, caredigrwydd a thosturi wrth feithrin perthnasoedd cadarnhaol a chreu amgylcheddau chwarae cynhwysol
15. dylanwad diwylliant a chefndir ar ddewisiadau chwarae, rhyngweithiadau, ac ymgysylltiad plant
16. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i greu amgylcheddau chwarae diogel, cefnogol a meithringar
17. sut mae cynllunio mannau a phrofiadau chwarae sy'n ysgogi natur chwilfrydig, greadigol a holgar
18. pwysigrwydd addasu amgylcheddau chwarae yn seiliedig ar ddewisiadau a diddordebau plant sy'n esblygu
19. manteision chwarae naturiol ac yn yr awyr agored o ran cefnogi llesiant, dysgu a chysylltiad â'r amgylchedd
20. sut mae integreiddio arferion cynaliadwy mewn lleoliadau chwarae, gan leihau

gwastraff a hybu bioamrywiaeth
21. defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i hwyluso chwarae, gan sicrhau eu bod yn cefnogi yn hytrach na disodli profiadau chwarae cyfoethog yn y byd go iawn
22. y newidiadau y gall plant a phobl ifanc fynd drwyddynt wrth chwarae
23. y patrymau disgwyliedig o ran datblygiad o'u geni hyd at 21 oed
24. Y ffactorau sy'n effeithio ar dwf y ffoetws a datblygiad yr ymennydd
25. sut mae ffactorau cymdeithasol, corfforol ac economaidd yn dylanwadu ar gyfleoedd plant i gymryd rhan mewn profiadau chwarae ystyrlon
26. ffyrdd o gefnogi teuluoedd i ddeall a gwerthfawrogi chwarae ac adnabod patrymau chwarae, dewisiadau a chynnydd datblygiadol plant
27. sut mae dadansoddi adborth i asesu effeithiolrwydd y ddarpariaeth chwarae
28. sut mae dod o hyd i adnoddau cymunedol ac ymwneud â nhw i wella profiadau chwarae plant
29. damcaniaethau sy'n berthnasol i hybu chwarae
30. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer hybu chwarae
31. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i hybu chwarae
32. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth hybu chwarae, a sut i fynd i'r afael â hyn
33. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu o ran hybu chwarae

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

# Hybu Chwarae

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD355 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Chwarae, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |